



Rhaglen Gyflawn

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 17EG TACHWEDD, 2015

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

LowriHafEvans@gwynedd.gov.uk

(Dosbarthwyd: 10/11/15)

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Dilwyn Morgan
E. Caerwyn Roberts

Annwen Daniels
Linda Morgan
Gruffydd Williams

Annwen Hughes
W. Tudor Owen
Eurig Wyn

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones
Angela Russell

Nigel Pickavance
Mike Stevens

Llais Gwynedd (2)

2 Sedd Wag

Llafur (1)

Y Cynghorwyr Glyn Thomas

Democratiaid Rhydfrydol (1)

Y Cynghorwyr Stephen W. Churchman

Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd Louise Hughes

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

1 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2015, fel rhai cywir.

5. YR IAITH GYMRAEG Â'R DREFN GYNLLUNIO

6 - 12

Ystyried yn ehangach rôl a dylanwad yr iaith Gymraeg ar y drefn gynllunio.

6. CYTUNDEBAU ADRAN 106

13 - 18

Ystyried papur ar bwrpas ac ehangder cytundebau Adran 106.

7. CLUDIANT ADDYSG ÔL-16

19 - 25

Derbyn adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet ar weithrediad argymhellion yr Ymchwiliad Craffu.

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 17.09.2015

YN BRESENNOL - Y Cyngorydd Angela Russell (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Caerwyn Roberts (Is Gadeirydd)

Y Cyngorwyr:- Stephen Churchman, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Eric M Jones, Dilwyn Morgan, W Tudor Owen, Mike Stevens, Gruffydd Williams ac Eurig Wyn

SWYDDOGION: Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

HEFYD YN BRESENNOL:

- i) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Ffrancon Williams (Prif Weithredwr CCG), Llinos Iorwerth (Pennaeth Cyfathrebu CCG), Gethin Armstrong (Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer CCG) ac Enid Roberts (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cwsmeriaid a Chymunedau CCG)
- ii) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Cyngorydd John Wynn Jones - Aelod Cabinet Amgylchedd a Mr Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd)
- iii) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen – Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Rheoleiddio) a Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu)
- iv) Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen – Cyngorydd Ioan Thomas – Aelod Cabinet Tai), Arwel W Owen (Uwch Reolwr Tai), Catrin Roberts (Swyddog Strategol Datblygu Tai)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Annwen Davies, Louise Hughes, Linda Morgan, Robert J Wright.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 21 Mai 2015 fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Adroddwyd bod trafodaethau am bresenoldeb un o gynrychiolwyr Plaid Cymru ar yr Awdurdod Tân wedi eu cynnal.

5. CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

- (a) Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) 2014 - 2015. Cyfeiriwyd at y Cytundeb Trosglwyddo a nodwyd bod yn ofynnol iddynt nodi sut maent wedi gwireddu'r addewidion a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig a gweithredu goblygiadau dan y Cytundeb Trosglwyddo. Tynnwyd sylw at rai materion penodol:

- Bod 167 (98.8%) o'r addewidion o fewn y Ddogfen Gynnig "Eich Cartref, Eich Dewis" wedi eu cyflwyno'n llwyddiannus, ers diwedd mis Mawrth 2015. Nodwyd bod CCG yn parhau i roi blaenoriaeth i swyddi lleol gan sicrhau bod y gwariant yn cael ei gylchdroi. Ar ddiwedd Mawrth 2015 roedd 257 yn cael eu cyflogi ar raglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar draws yr holl ddarparwyr gwasanaeth. Wrth i lif gwaith a rhaglen gwella SATC dynnu tua'r terfyn, nodwyd bod lefelau staffio Darparwyr Gwasanaeth yn gostwng ac o ganlyniad ffigyrau nifer prentisiaid a hyfforddeion yn lleihau.
- CCG wedi ennill gwobr Partneriaeth a Mentergarwch Cymdeithas Penseiri Ymgynghorol (2013), a gwobr am Gyfraniad Arbennig yn y Gwobrwyon Caffael Cenedlaethol (2014). Yn dilyn hynny, maent wedi derbyn canmoliaeth am y modd y mae busnesau lleol a phobl leol wedi cael budd o'r swyddi a'r prentisiaethau sydd wedi eu creu. Yn 2015, derbyniwyd gwobr gan Caffael Cenedlaethol Cymru.
- Ers bodolaeth CCG a hyd at Fawrth 2015, mae 180 o brosiectau cymunedol wedi derbyn budd o grantiau (cyfanswm £975,699) drwy Gronfa Budd Cymunedol CCG gyda buddsoddiad ychwanegol o £5.6M wedi ei ddiogelu drwy arian cydgyfeirio.
- Bod pwyslais CCG yn newid. Dros y pum mlynedd diwethaf y pwyslais oedd sicrhau bod stoc y gymdeithas yn cydymffurfio a'r safon ac mae hyn yn parhau yn ymrwymiad clir. Erbyn hyn, mae cyfeiriad y busnes yn newid a lluniwyd Cynllun Corfforaethol 2015/20 yn amlinellu strategaeth a dyheadau am y pum mlynedd nesaf. Bydd mesurau lles yn gwasgu ar denantiaid a rhaid rhoi ystyriaeth ar y ddarpariaeth fydd yn cael ei gynnig.
- Y busnes yn parhau i dyfu er mwyn sicrhau hyfywedd tymor hir - datblygiadau newydd ym Maesgeirchen a Phwllheli ynghyd â chyrraedd targed i ddarparu tai fforddiadwy ac ymchwilio i ffynonellau incwm newydd. Er bydd y gwariant yn lleihau o'r flwyddyn yma ymlaen, bydd CCG yn parhau i fuddsoddi a chylchdroi arian o fewn y Sir.
- Elfennau cydweithio gyda chwmnïoedd mawr a threfniadau is-gontractio yn codi rhai pryderon, ond CCG yn parhau i weithio drwy hyn.
- Parhau i ymgynghori gyda thenantiaid i gynnwys cwsmeriaid ym mhopeth maent yn wneud.
- O ganlyniad i'r newid pwyslais, y berthynas gyda'r Cyngor, o safbwynt monitro yn newid.

(b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- i. Llongyfarchwyd CCG ar eu llwyddiant o dderbyn gwobr Caffael Cenedlaethol Cymru ac ar eu hadroddiad positif. Diolchwyd iddynt am lwyddiant y gronfa gymunedol a'u parodrwydd i wella stadau cymysg eu heiddo.
- ii. Cymeradwywyd datblygiadau o'r newydd, ond angen sicrhau mwy o unedau ar gyfer pobl hŷn ac unedau un llofft. Mewn ymateb nodwyd bod CCG yn ymwybodol o gynnydd yn nifer pobl hŷn ac o'r ystadegau clir sydd tystiolaethu'r pwyslais ar gadw pobl hŷn yn eu cartrefi - y mater eisoes wedi ei drafod yn y Bartneriaeth Tai ac felly'r cymdeithasau tai yn cydweithio i ymateb i'r galw a sicrhau bod y datblygiadau yn y llefydd cywir.
- iii. Dirywiad safonau ceginau, er enghraifft yn debygol o ddod gyda'i gilydd ac felly rhagweld y bydd angen buddsoddiad pellach ymhen rhyw bymtheg mlynedd. Mewn ymateb nodwyd bod ystyriaeth wedi roi i hyn yn y cynllun busnes.

- iv. Cais i gryfhau cyswllt yr aelodau lleol, Cyngor Bro gyda'r wardeniaid lleol o ran rhannu gwybodaeth. Mewn ymateb nodwyd bod y Protocol Aelodau Etholedig yn sicrhau llif gwybodaeth i un cyfeiriad gyda phob ymholiad ac ymateb yn cael ei gofnodi yn briodol. Dywedwyd bod sefydlu un pwynt cyswllt yn rhoi agwedd broffesiynol i'r drefn. O ran cysylltu gyda wardeniaid, amlygwyd nad oedd hyn yn effeithiol gan fod y warden yn dueddol o fod allan yn y maes drwy'r dydd. Amlygwyd hefyd bod Pencampwr Aelodau wedi ei benodi yn bwrpasol i rannu gwybodaeth. Ategwyd yr aelodau bod y protocol aelodau yn effeithiol a llongyfarchwyd Gethin a'r tîm am eu gwybodaeth a'u hymatebion amserol.
- v. O ran gwerthiant tai nodwyd bod y cyfartaledd wedi gostwng i rhwng 5 – 7 tŷ yn cael eu gwerthu yn flynyddol. Nodwyd bod gan y Llywodraeth fwriad i ostwng y disgownt o £16,000 i £8,000 fydd yn gwneud y broses yn llai deniadol i'r tenant. Mae'r fenter 'Hawl i Brynu' yn parhau gyda chyfnod cymhwyso o fod wedi byw yn yr eiddo am ddwy flynedd cyn gwneud cais. Yn ôl Llywodraeth San Steffan, mae'n ddymuniad, ar gyfer pob tŷ sydd yn cael ei werthu, dylai un gael ei adeiladu yn ei le, ond ymddengys bod gan Llywodraeth Cymru ymrwymiad cadarn i waredu'r prosiect 'Hawl i Brynu'.
- vi. Wrth ymateb i gais gan Aelod am wybodaeth i rannu gyda thenantiaid yng nghydestun pwy sydd yn cael blaenoriaeth, nodwyd bod ceisiadau yn cael eu rheoli gan y Tîm Opsiynau Tai gyda chydweithio da gyda'r Gwasanaethau Tai. Amlygwyd hefyd bod rhaid parchu Diogelwch Gwybodaeth ac felly ni ellir rhannu gwybodaeth am denantiaid. Gwerthfawrogwyd y gwaith roedd aelodau yn ei wneud i liniaru sefyllfaoedd.
- vii. Mewn ymateb i sylw yn nodi siom fod CCG wedi penodi dau uwch Swyddog digymraeg a'r drwg deimlad roedd wedi ei greu, amlygwyd nad oedd yn benderfyniad hawdd. Nodwyd bod problemau recriwtio a'u bod wedi ceisio ymateb i'r sefyllfa. Mae gwaith CCG at y Gymraeg yn parhau, ond fel busnes rhaid sicrhau bod y bobl iawn yn y swyddi iawn ac felly hyn yn flaenoriaeth.
- viii. Mewn ymateb i sylw ynglŷn â gwella trefniadau cydweithio o ran sefyllfa Tai Gwag, nodwyd bod tai gwag yn broblem ariannol i CCG ac felly os gall aelodau lleol gefnogi CCG drwy hyrwyddo tai gwag buasent yn ddiolchgar iawn.
- ix. O ran perchnogaeth tiroedd, amlygwyd y buasai CCG yn cysylltu gydag aelodau unigol
- x. O ran newid perthynas, amlygwyd y buasai'r aelodau yn hoff o weld y berthynas yn parhau rhwng y Cyngor a CCG gan fod cydweithio yn llesol. Gwnaed awgrym cychwynnol y buasai modd cynnal trafodaeth flynyddol yn y Pwyllgor Craffu Cymunedol i drafod / craffu gwaith yr holl gymdeithas tai sydd yn darparu cartrefi yng Ngwynedd.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i'r drafodaeth ac i gynrychiolwyr Cartrefi Cymunedol Gwynedd am fynychu'r cyfarfod. Derbyniwyd yr adroddiad.

6. DEFNYDD O HAWLIAU GORFODAETH

- a) Cyflwynwyd briff cychwynnol ar gyfer Ymchwiliad Craffu i'r defnydd o hawliau gorfodaeth stryd. Amlygwyd bod Gwasanaeth Stryd Cyngor Gwynedd yn dîm cymharol fychan yn gweithio o fewn cyllideb net o £300k. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd ar sicrhau amgylchedd glan a diogel, gweithredu polisïau ar graffiti, nodwyddau a lanteri, monitro perfformiad glendid strydoedd a chynnal a chynorthwyo mewn ystod o ymgyrchoedd perthnasol. Bydd yr ymchwiliad craffu yn rhedeg am gyfnod o chwe mis gyda'r bwriad o lunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet.

b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod y broblem baw ci yn un amlwg i'r dyn ar y stryd, ond rhaid cofio nad ymchwiliad i faw cŵn yn unig sydd yma - rhaid ystyried y briff yn ei gyfanrwydd.
- Angen sicrhau bod pob ardal yn y Sir yn cael sylw ac nid y manau prysur yn unig
- Nid yw'r ymchwiliad yn edrych i graffu gwaith yr adran, ond i gefnogi gwaith yr adran ac i geisio ehangu sgôp y gwaith y mae'r adran yn wneud.
- Biniau amlbwrpas yn cael eu treialu yn Nhywyn - llwyddiannus iawn ond angen codi ymwybyddiaeth
- Angen hyfforddiant a chyhoeddusrwydd pendant a phenodol
- Angen cadarnhad o drefniadau'r gwasanaeth – pwy sydd yn casglu? Pwy sydd yn gosod y biniau?
- Angen ystyried gwm cnoi – posib yma cydweithio gydag ysgolion.

c) **PENDERFYNWYD** derbyn y briff ac enwebu'r Aelodau canlynol i wasanaethu ar yr ymchwiliad. Y Cynghorwyr Dilwyn Morgan, Mike Stevens, Tudor Owen, Annwen Hughes, Annwen Daniels ac Angela Russell i wasanaethu ar yr ymchwiliad.

7. CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yn ymateb i ddau bryder ymysg Cynghorwyr a'r cyhoedd o'r drefn Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Y pryder cyntaf oedd trefniadau mewnol y Cyngor wrth ymdrin ag asesiadau ardrawiad ieithyddol mewn pwyllgorau cynllunio. Roedd yr ail bryder yn un ehangach ynglŷn â statws yr iaith Gymraeg yn y Gyfundrefn Cynllunio.

Adroddwyd bod y mater cyntaf, yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio a'r Cynghorydd Elwyn Edwards, wedi ei ddatrys gyda dolen ar y rhaglen yn cyfeirio ymlaen at y cynlluniau perthnasol ar wybodaeth gefndirol.

b) O ran statws yr iaith Gymraeg yn y Drefn Cynllunio (Lefel lleol a Chenedlaethol), amlygwyd bod bwriad rhaglennu eitem bwrpasol ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar y 17eg o Dachwedd i drafod yn llawn. Wrth ystyried meysydd ar gyfer y drafodaeth cyflwynwyd sylwadau cychwynnol gyda chais i'r aelodau ychwanegu atynt.;

- Gosod y cyd-destun statudol o ran y Bil Cynllunio ac ati
- Egluro'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol (TAN 20)
- Egluro'r Polisi Cynllunio Lleol Cyfredol (Y Cynllun Datblygu Unedol a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg)
- Egluro sut mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o fewn y cyd-destun polisi cyfredol
- Rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Drafft)
- Egluro sut, yng nghyd-destun gofynion TAN 20, y bydd gofyn i ni ddelio gyda'r iaith Gymraeg wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ar ôl i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gael ei fabwysiadu a sut mae'r Gwasanaeth yn ceisio ymateb i hyn.

c) Mewn ymateb i'r sylwadau cychwynnol i gynnal y drafodaeth, amlygodd y swyddogion Cynllunio;

- yng nghyd-destun TAN 20, bod canllawiau drafft newydd ar gyfer asesiadau ieithyddol a chymunedol, ond nad oedd bwriad eu gweithredu tan yr etholiad nesaf - y pwyllgor Cynllunio felly yn parhau gyda'r polisiau cyfredol
- Bod arolygwyr apêl yn arbenigo mewn meysydd cynllunio perthnasol ac nid yn y Gymraeg yn unig
- Bod Cyngor Gwynedd yn mynd tu hwnt i'r angen yng nghyd destun canllawiau.

- ch) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:
- Derbyn bod y ddolen yn syniad da ac effeithiol
 - Angen diffiniad o'r term 'Cyfarwyddyd Cynllunio'
 - Rhaid sicrhau bod yr asesiad iaith yn cael ei gyfarch gan swyddogion priodol – angen i'r arolygaeth gael ei gwblhau gan swyddogion sydd yn deall y sefyllfaoedd cymunedol ac ieithyddol
 - Carl Sargeant yn annog ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, pam felly na ellir rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg cyn yr etholiad

PENDERFYNWYD derbyn bod y trefniadau o ran papurau Pwyllgor Cynllunio wedi gwella'n ddigonol a chytuno i geisio adroddiad i gyfarfod nesaf y pwyllgor fel yr amlinellwyd, ond ychwanegu'r elfennau canlynol iddo;

- **Canllawiau asesiadau iaith a pwy sydd yn eu gweithredu**
- **Cyfarch rôl arolygaeth cynllunio**
- **Angen diffiniad o'r term 'Cyfarwyddyd Cynllunio'**

8. CYFLWYNO ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU DIGARTREFEDD

- a) Cyflwynwyd adroddiad yr ymchwiliad craffu Digartrefedd i'r Aelod Cabinet Ioan Thomas. Atgoffwyd pawb gan gadeirydd yr ymchwiliad, y Cynghorydd Eric Jones, beth oedd cefndir y briff a rhoddwyd crynodeb o'r gwaith a wnaed. Profwyd bod yr ymchwiliad wedi bod yn hynod o werthfawr, yn agoriad llygad i faes heriol ac anodd sydd yn ymdrin ag unigolion a theuluoedd ar draws y gymuned. Amlinellwyd bod gwaith ardderchog yn cael ei weithredu, ond adnabuwyd argymhellion lle ystyriwyd lle i wella. Nodwyd nad oedd hyn yn feirniadaeth o'r swyddogion sydd yn y maes, ond yn fater y gall rhai addasiadau wella'r ddarpariaeth. Diolchwyd i aelodau'r ymchwiliad am eu hymrwymiad, i'r Cynghorydd Stephen Churchman am fynychu pob ymweliad hostel er mwyn sicrhau cysondeb barn ac i'r swyddogion am eu gwaith, yn arbennig i Susan Griffith (Rheolwr Digartrefedd a Tai Cefnogol) a Catrin Roberts (Swyddog Strategol Datblygu Tai).
- b) Ategodd yr Aelod Cabinet ei ddiolch i'r aelodau am eu hymroddiad i'r ymchwiliad oedd wedi cyflenwi rôl craffu werthfawr i faes heriol. Amlinellwyd, yr her ariannol ac felly anodd derbyn pob argymhelliad, ond y gobaith oedd gweithredu'r mwyafrif ohonynt. Ategodd, yr Uwch Reolwr Tai ei werthfawrogiad am y gwaith a'r trosolwg gwerthfawr a roddwyd i'r maes. Amlygodd bod rhai argymhellion eisoes wedi eu gwireddu neu wedi eu blaenoriaethu (gyda chyfyngiadau ariannol i eraill). Anogwyd pob aelod i ymweld â Hostel.
- c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:
- Pwysig cydweithio i gael y gorau i'r Digartrefedd - mae'r gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu yn hanfodol
 - Rhaid sicrhau ymyrraeth gynnar a chanolbwyntio ar wasanaeth ataliol
 - Llongyfarchwyd yr adroddiad a gwnaed cais am ddiweddariad ymhen 6 - 9 mis

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, mabwysiadu'r argymhellion ynddo a cheisio adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet mewn tua 6 – 9 mis o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn dilyn yr argymhellion.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 12:05pm

Eitem 5

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD Y CYFARFOD	17 Tachwedd 2015
TEITL	Cynllunio a'r iaith Gymraeg
AWDUR	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro)
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
PWRPAS	Craffu trefniadau'r Cyngor ar gyfer y broses gynllunio a'r iaith Gymraeg.

1. Cefndir a Phwrpas

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddilyniant o drafodaeth a gafwyd ym Mhwyllgor Craffu ar 17 Medi 2015 ynglŷn â chynllunio a'r iaith Gymraeg, wnaeth ddelio'n uniongyrchol a chraffu trefniadau'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer ymdrin â'r ddogfennaeth ar gyfer asesiadau ardrawiad ieithyddol, oedd yn cael ei gyflwyno gyda cheisiadau cynllunio. Mae'r mater yma wedi ei ddatrys bellach ac mae trefniadau yn ei lle ac yn weithredol ar gyfer hwyluso mynediad i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio (ac eraill), at yr holl wybodaeth gefndir sydd yn berthnasol i'r ceisiadau sydd ar raglen y Pwyllgor Cynllunio.
- 1.2 Cytunwyd yn y Pwyllgor Craffu ar y 17 Medi 2015 i adrodd eto ar y materion ehangach mewn perthynas â'r system gynllunio a'r iaith Gymraeg a phwrpas yr adroddiad yma felly yw ymdrin â'r materion isod;
 - i. Gosod y cyd-destun statudol o ran Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
 - ii. Egluro'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol (TAN 20)
 - iii. Egluro'r Polisi Cynllunio Lleol Cyfredol (Y Cynllun Datblygu Unedol a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r iaith Gymraeg)
 - iv. Egluro sut mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o fewn y cyd-destun polisi cyfredol
 - v. Rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Drafft)
 - vi. Egluro sut, yng nghyd-destun gofynion TAN 20, y bydd gofyn i ni ddelio gyda'r iaith Gymraeg wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ar ôl i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gael ei fabwysiadu a sut mae'r Gwasanaeth yn ceisio ymateb i hyn

2. Y cyd-destun statudol a'r cyd-destun polisi cynllunio

- 2.1 Mae'r broses gynllunio yn gweithredu o fewn fframwaith statudol sydd yn cynnwys tair haen sef deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth ac yna'r polisïau a'r canllawiau cynllunio perthnasol. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys ers yn ddiweddar Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol arall yn cynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 a Deddf Cynllunio 2008.
- 2.2 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cyfeirio'n benodol at yr iaith Gymraeg gan nodi'r angen i roi unrhyw ystyriaeth berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg, lle mae'n faterol i'r cais. Mae hyn yn codi proffil yr iaith Gymraeg o safbwynt y fframwaith

statudol, ond rhaid cofio bod yr iaith yn ystyriaeth gynllunio beth bynnag, cyn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Atgoffir Aelodau'r Pwyllgor Craffu fod Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, wedi cynnal sesiwn codi ymwybyddiaeth ar y cyd ar y 5 Tachwedd 2015 mewn perthynas â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

2.3 O safbwynt gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, mae adran 38(6) o'r Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol yn datgan fod yn rhaid gwneud penderfyniadau yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dweud fel arall. Hwn yw'r prawf statudol. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) (CDU) yw'r cynllun datblygu perthnasol. Mae ystyriaethau cynllunio perthnasol yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ddod i gasgliad clir a rhesymedig ynglŷn â faint o bwysau i'w roi ar ystyriaeth cynllunio berthnasol.

2.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys polisiâu defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen, ynghyd â'r canllawiau cefnogol yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 ar yr Iaith Gymraeg (2014), yn datgan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hannog i ffynnu fel iaith llawer o gymunedau ledled Cymru. Nodir hefyd y bydd lles yr iaith i'r dyfodol yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy ffyniannus (paragraff 4.13.1 Polisi Cynllunio Cymru). Dylai'r system cynllunio defnydd tir hefyd ystyried anghenion a diddordebau'r iaith Gymraeg ac wrth wneud hynny, cyfrannu at ei lles. Serch hynny, nodir hefyd na ddylai polisiâu cynllunio geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Ni ddylai'r polisi Cynllunio geisio rheoli meddiannaeth tai am resymau ieithyddol.

2.5 Mae TAN 20 yn cynnwys canllawiau i awdurdod cynllunio lleol ar sut y gellir ymgorffori ystyriaethau o ran y Gymraeg fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac y gellid gwneud hynny fel rhan o arfarniad o gynaliadwyedd y CDLI. Mae TAN 20 hefyd yn nodi na ddylai ceisiadau cynllunio fod yn destun asesiad o'r iaith Gymraeg, a hynny oherwydd y dylai awdurdodau cynllunio nodi eu safbwynt ar gynllunio a'r iaith Gymraeg drwy strategaeth a pholisïau'r CDLI a thrwy ddefnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol.


2.6 Rhaid nodi fod TAN 20 yn cyfeirio'n benodol at Gynlluniau Datblygu Lleol wrth nodi na ddylai ceisiadau cynllunio fod yn destun asesiad o'r iaith Gymraeg. Nid yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn) sydd yn cael ei baratoi, wedi ei fabwysiadu ar hyn o bryd a'r CDU Gwynedd yw'r cynllun sydd wedi ei fabwysiadu ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n egluro polisiâu perthnasol yn y CDU. Nid yw'r Canllawiau yn ddogfennau sy'n creu polisi. Mae Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r iaith Gymraeg yn rhoi arweiniad am sut i gymhwyso Polisi A2 y CDU. Y sefyllfa ar hyn o bryd yng Ngwynedd gan mai'r CDU Gwynedd yw'r cynllun sydd wedi ei fabwysiadu, yw ein bod yn parhau i ystyried yr iaith wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio perthnasol fel y nodir yn y Canllaw Cynllunio Atodol : Cynllunio a'r iaith Gymraeg, er yr hyn a nodir yn TAN 20.

2.7 Rhaid cofio fod delio gyda cheisiadau cynllunio'n cynnwys yr angen i roi ystyriaeth i nifer helaeth o ystyriaethau cynllunio gwahanol, ac y bydd y pwysau a roddir i'r ystyriaethau hynny'n amrywio o gais i gais. Os yw'r asesiad o'r cynllun datblygu a'r

asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dod i'r un casgliad gellir un ai caniatáu neu wrthod y cais yn unol â hynny. Mewn rhai achosion fe all yr asesiadau ddod i gasgliad gwahanol. O gofio'r prawf statudol, pan fydd gwrthdaro rhwng yr asesiad o'r cynllun datblygu a'r asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol fe fydd angen dod i gasgliad clir a rhesymedig os yw'r pwysau'n ddigonol i orbwyso'r cynllun datblygu ai pheidio.

Ceisiadau cynllunio a'r iaith Cymraeg a'r trefniadau cyfredol

- 2.8 Yn unol â'r gofyn statudol mae'r Cyngor yn penderfynu ceisiadau cynllunio yn unol â'r CDU Gwynedd heblaw bod yna ystyriaethau cynllunio sydd yn nodi fel arall. Mae'r siart nesaf yn dangos y broses y gweithredir gan y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio ac ystyriaeth o'r iaith Gymraeg:



3. Paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd)

Y cyd-destun

- 3.1 Mae Cyngor Gwynedd ac Ynys Môn yn cydweithio i baratoi un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'n rhaid mynd trwy sawl cam statudol cyn y gellir mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd ac mae'r rhaglen sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad A yn cynnwys y prif gamau perthnasol. Mae'n rhaid i'r CDLI ar y Cyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a phan fydd y CDLI ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu, bydd yn disodli'r CDU Gwynedd.

Sut roddir ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth baratoi'r CDLI ar y Cyd?

Yr Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Effaith Ieithyddol (AEI)

- 3.2 Mae'n rhaid i'r CDLI ar y Cyd ofalu fod y datblygiadau'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Er mwyn gwneud hynny mae Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 yn dweud bod rhaid i'r CDLI ar y Cyd fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac i adrodd am ganfyddiadau'r gwaith yma trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun.
- 3.3 Bydd y CDLI ar y Cyd yn ymwneud a materion ieithyddol a diwylliannol, materion cydraddoldeb a materion iechyd. Bydd y broses AC yn asesu effaith y CDLI ar y Cyd ar y materion yma.
- 3.4 Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei fwydo gan wybodaeth ddaw i law yn sgil gwneud Asesiad Effaith Ieithyddol ar adegau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd.
- 3.5 Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol o'r Cynllun yn broses ailadroddus ac y bydd angen adolygu'r asesiad pan fo agweddau o'r Cynllun yn newid wrth symud drwy'r broses o greu'r Cynllun. Mae Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Mai 2013) yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddir ac yn cofnodi tystiolaeth a chasgliadau'r asesiad yn y broses o greu'r Cynllun. Gan fod y broses yn un ailadroddus a chan fydd y sail dystiolaeth yn datblygu fe fydd y ddogfen yn cael ei newid yn ystod y broses.
- 3.6 Mae'r ffynonellau gwybodaeth ar gyfer y gwaith yma yn cynnwys:
- Gwybodaeth o'r Cyfrifiad.
 - Prosiect Tai ac Iaith : Mae holiaduron yn cael eu gyrru allan i: (a) tai a brynwyd yn ystod 2008 - 2012 yn ward Llanrug, Clynnog, Hirael, Diffwys a Maenofferen, De Dolgellau ac Abersoch, (b) tai sydd wedi cael eu hadeiladu yng Ngwynedd yn ystod 2007 - 2012. Pwrpas yr holiaduron ydy cael darlun o'r aelwydydd ac wedyn gweld os oes cydberthynas rhwng hynny a sefyllfa'r iaith Gymraeg. Mae'r Prosiect yma'n rhan o brosiect ehangach o dan Gynllun Strategol y Cyngor;
 - Prosiect Tai Marchnad Lleol : Mae'r prosiect yma'n edrych am, ac yn dadansoddi, tystiolaeth i weld os ellir cyfiawnhau polisi a fyddai'n hyrwyddo tai a fyddai'n diwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored. Gallai'r math yma o dai, yng nghyd ag isadeiledd arall, alluogi trigolion i aros mewn cymunedau gwledig penodol.
 - Defnydd o'r iaith mewn ysgolion cynradd : Sef tystiolaeth am safon disgyblion; iaith a ddefnyddir amser chwarae ac ati; iaith cyfarfodydd Llywodraethwyr

- Gweithredu'n lleol : Sef teclyn a gafodd ei ddatblygu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal ymchwil i gael darlun o natur ardal: gwybodaeth am nodweddion ac agweddau cymdeithasol; mesur hyfywedd y Gymraeg yn lleol o ran ei statws gweledol, y defnydd llafar a wneir o'r Gymraeg a'r gwerth a roddir ar y Gymraeg gan drigolion. Mapio gwybodaeth ar lefel sirol a derbyn gwybodaeth gan gymunedau sydd wedi defnyddio'r teclyn yn lleol.

3.7 Bu'r CDLI ar y Cyd allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Chwefror / Mawrth 2015 ac mae'r Panel CDLI Lleol ar y Cyd (sydd yn cynnwys Aelodau Gwynedd ac Ynys Môn) yn y broses o ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Rhaid nodi hefyd fod gofyn statudol i'r Cyngor fonitro'r CDLI (ar ôl ei fabwysiadu) a pharatoi adroddiad monitro blynyddol. Pwrpas hyn yw asesu os yw polisiau'r cynllun yn gweithio ac yn cyflawni'r amcanion.

Canllawiau Cynllunio Atodol Newydd

- 3.7 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd mae bwriad paratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol newydd. Mae bwriad rhoi blaenoriaeth i baratoi Canllaw Cynllunio Atodol sydd yn ymwneud a chymunedau cynaliadwy fydd yn cynnwys mwy o fanylder ar faterion cynllunio a'r iaith Gymraeg. Mae pryder ynglyn a gofynion TAN 20 sydd yn nodi na ddylai ceisiadau cynllunio fod yn destun asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg oherwydd y disgwylir fod hyn wedi ei wneud wrth baratoi'r CDLI. Mae'n amhosib darogan adeg paratoi'r cynllun pob datblygiad gall ddigwydd dros 15 mlynedd, a chredir y bydd yn anochel y bydd datblygiadau lle bydd angen ystyried yr iaith fel rhan o'r broses o ddelio gyda'r cais. Y bwriad felly yw ceisio hwyluso hynny drwy'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd.

Casgliadau

- 3.8 Mae trefniadau'r Cyngor o safbwynt gweithredu'r broses gynllunio yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg yn unol â'r gofynion statudol a'r polisi a'r canllawiau cynllunio perthnasol.

Atodiad A

Camau ac amserlen paratoi'r CDLI ar y Cyd Gwynedd a Mon

1.	Rhoi'r CDLI ar y Cyd a'r dogfennau'n gysylltiedig gydag ef ar adnau – cyfnod ymgynghori o 6 wythnos (<i>Rheoliad 17</i>)	Chwefror – Mawrth 2015
2.	Ystyried sylwadau a gwneud penderfyniad am am y CDLI ar y Cyd Adnau (<i>Rheoliadau 18 ac 19</i>)	Ebrill 2015 – Ionawr 2016
3.	Cyflwyno'r CDLI ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwilio (<i>Rheoliad 22</i>)	Chwefror 2016
4.	Archwilio Cyhoeddus Annibynnol (<i>Rheoliad 23</i>)	Chwefror 2016 – Ionawr 2017
5.	Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (<i>Rheoliad 24</i>)	Ionawr 2017
6.	Mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd (<i>Rheoliad 25</i>)	Chwefror/ Mawrth 2017
7.	Monitro ac Adolygu	Adroddiad blynyddol

(mae'r amserlen ar gyfer camau 4 – 6 yn ddangosol oherwydd ei fod yn dibynnu ar faint o amser bydd yr Arolygydd ei angen i archwilio'r Cynllun, a fydd yn cynnwys Gwrandawiadau Cyhoeddus)

Eitem 6

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD Y CYFARFOD	17 Tachwedd 2015
TEITL	Y defnydd o gytundebau dan adran 106 o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990
AWDUR	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro)
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
PWRPAS	Craffu trefniadau'r Cyngor ar gyfer y defnydd o gytundebau 106.

Cefndir

1. Yn sgil cyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, un o'r eitemau oedd y pwyllgor yn awyddus i'w graffu oedd y materion yn ymwneud gyda chytundebau 106 a pha mor effeithiol oedd y dogfennau hyn mewn gwirionedd.
2. Er mwyn ystyried effeithlonrwydd y cytundebau 106 mae'n rhaid yn gyntaf ystyried y strwythur statudol sydd tu cefn i'r cytundebau hyn ynghyd a'r adegau pryd fydd polisiau cynllunio lleol yn rhoi cyfle i'r awdurdod defnyddio'r cytundebau hyn.

Cefndir statudol

3. Mae cytundebau 106 neu ymrwymadau cynllunio yn rhan o'r broses cynllunio ac fel arfer yn gysylltiedig gyda chaniatâd cynllunio. Mi all cytundebau o'r fath yma:
 - Gyfyngu ar ddatblygiad neu ddefnydd o dir mewn rhyw ffordd.
 - Gofyn i weithrediad neu weithgaredd i gael ei gario allan ar, oddi fewn, o dan neu dros dir.
 - Gofyn i'r tir gael ei ddefnyddio mewn ffordd benodol.
 - Gofyn am symiau o arian penodol i gael eu talu i'r awdurdod cynllunio lleol.
4. Mae'r uchod yn cael ei gynnwys o fewn Adran 106 (1) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Er mwyn i'r cytundeb fod yn effeithiol fodd bynnag mae angen i'r cytundeb gydymffurfio hefo'r gofynion statudol. Mae'n hanfodol i bob cytundeb fod yn:
 - (a) Angenrheidiol er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio.
 - (b) Yn uniongyrchol berthnasol i'r datblygiad arfaethedig.
 - (c) gysylltiedig, mewn modd teg a rhesymol, i'r math a graddfa o ddatblygiad dan sylw.

5. Fe nodir o'r uchod felly bod angen cyfiawnhad penodol ar gyfer cytundeb o'r fath. Yn aml iawn mae'r cyfiawnhad hyn i'w weld drwy ein polisiau lleol e.e. cytundeb 106 tai fforddiadwy.
6. Dylid hefyd nodi y gellir ond defnyddio Cytundebau 106 mewn sefyllfa lle na ellir defnyddio amodau cynllunio i wireddu'r hyn sydd angen ei wneud.

Defnydd Cyngor Gwynedd o gytundebau 106

7. Mae Cyngor Gwynedd yn gwneud cryn ddefnydd o gytundebau 106 er mwyn gwireddu anghenion ein polisiau lleol sydd yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Mae'n debyg mai'r cytundeb a ddefnyddir rhan amlaf yw'r cytundeb 106 tai fforddiadwy ac mae canllawiau ynglŷn â defnyddio'r rhain i'w gweld yn ein Canllaw Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy. Rhaid cadw mewn cof hyd yn oed gyda'r math yma o gytundebau bod eu defnydd a'u hangen yn gorfod cael ei asesu'n unigol bob tro. Gall materion megis hyfywra datblygiad yn gallu effeithio ar ein gallu i ddefnyddio cytundebau 106 a bydd hefyd angen ystyried os oes angen Cytundeb o gwbl h.y. a yw'r eiddo yn fforddiadwy beth bynnag heb unrhyw gytundeb 106 oherwydd maint a lleoliad yr eiddo ? Rhaid cofio mai pwrpas cytundeb 106 tŷ fforddiadwy'n bennaf yw cyfyngu pris yr eiddo fel ei fod yn fforddiadwy ar gyfer cwrdd â'r angen penodol.
8. Yn gyffredinol mae'r math o Gytundeb Tai Fforddiadwy sydd yn cael ei ddefnyddio yn ddibynnol ar leoliad y datblygiad, ac mae polisiau o fewn y Cynllun Datblygu Unedol a'r Canllaw Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy, yn rhoi manylder pellach ynglŷn â hyn gan gynnwys manylion am faint tai fforddiadwy. Yn gyffredinol mae lleoliadau o fewn Canolfannau Lleol, pentrefi a phentrefi gwledig yn golygu cyfyngu pris yr eiddo , i bwy y gellid eu gwerthu (pobl leol o fewn dalgylch) a hefyd eu bod mewn angen am dy fforddiadwy. Mae Cytundebau o fewn y Canolfannau Isranbarthol (Bangor) a'r Canolfannau Trefol yn cyfyngu pris a mynnu gwerthu i bobl mewn angen.
9. Bydd y nifer o dai Fforddiadwy ar unrhyw safle hefyd yn ddibynnol ar ei leoliad, ac ystyriaeth o'r holl bolisiau a'r materion cynllunio perthnasol. Dylid nodi hefyd wrth gwrs fod Polisi Cenedlaethol hefyd yn rhoi Tai Fforddiadwy yn ganolog i'w polisiau tai.
10. Mae'n wir i'w ddweud fod addasiadau wedi gorfod cael eu gwneud i'r cytundebau dros y blynyddoedd er mwyn ein galluogi i gydymffurfio a gofynion y banciau sydd ym menthyg. Mae hon yn frwydr barhaus a rhwystredig gan fod gofynion y banciau yn newid yn aml. Mae parodwydd banciau i dderbyn cyfyngiadau o fewn cytundebau 106 hefyd yn ddibynnol ar sefyllfa'r farchnad dai ar y pryd. Dylid nodi fodd bynnag, fod enghreifftiau o ddiffyg ariannu yn llwyr, yn ein profiad ni, yn gyfyngedig.
11. Rydym wedi gweld enghreifftiau yn ddiweddar lle mae'r Cyngor wedi penderfynu nad oes angen cytundeb 106 mewn perthynas â datblygiadau gan Gymdeithasau Tai. Y rhesymeg dros hyn oedd nad oedd eu hangen ar sail fod rheoliadau statudol a'u mecanwaith a pholisiau mewnol hwy yn sicrhau fforddiadwyedd y tai hyn. Mae Cyngor Gwynedd yn dilyn nifer o awdurdodau eraill wrth wneud hyn.
12. Enghraifft arall o ddefnydd y cytundebau yw cyfraniadau ariannol. Defnyddir y rhain o bryd i'w gilydd pan fydd angen cyfraniad ariannol er mwyn gwneud y datblygiad yma yn dderbyniol. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniadau tuag at ehangu ysgolion pan mae datblygiad penodol yn debygol iawn o olygu fod nifer o blant o fewn ysgolion penodol yn

cynyddu. Mae Canllaw Cynllunio Atodol Cytundebau 106 yn rheoli ac yn gosod fformiwla benodol ar gyfer gwneud hyn. Mae cyfraniadau hefyd wedi eu defnyddio i bwrpas gwella llwybrau, priffyrdd, gwella cysylltiadau gyda chanol trefi ac yn y blaen. Mae'n ofynnol ystyried y rhain eto yng nghyd-destun y prawf statudol y cyfeirir at yn rhan 4 uchod. Yn Atodiad 1 o'r adroddiad, rhoddir rhestr o'r holl geisiadau sydd wedi ei caniatáu'n ddarostyngedig i gytundeb 106 dros y 5 mlynedd diwethaf.

13. Nodir bod y Cyngor yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn), sydd wedi bod yn edrych ar dystiolaeth amrywiol er mwyn datblygu polisiau newydd ar gyfer cwrdd â'r angen am dai fforddiadwy. Bu'r Cynllun Adnau (sef fersiwn drafft llawn o'r Cynllun) allan am ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Mawrth eleni ac mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn sgil yr ymgynghoriad wrthi'n cael eu hystyried a'u hasesu ar hyn o bryd.

Enghraifft o sefyllfa nad yw'r defnydd o gytundebau 106 yn dderbyniol

